Cyllid & Tollau EM

Codau treth i'w defnyddio o 6 Ebrill 2011

Newidiadau i'r Tablau Treth a Chyfrifiannell

Yn dilyn datganiadau diweddar, rhaid defnyddio Tablau Treth a Chyfrifiannell newydd o 6 Ebrill 2011.

Y bandiau a chyfraddau Treth Incwm yw:

Cyfradd	%	Band
Cyfradd Sylfaenol	20%	£1 i £35,000
Cyfradd Uwch	40%	£35,001 i £150,000
Cyfradd Ychwanegol	50%	£150,001 ac uwch

- Y trothwy (man cychwyn) newydd ar gyfer TWE yw **£144** yr wythnos (**£623** y mis).
- Y cod dros dro newydd yw **747L**.

Mae'r Cyfrifiannell P11 bellach ar gael oddi ar ein Offer TWE Sylfaenol (ar gael yn flaenorol ar CD-ROM y Cyflogwr), yn www.businesslink.gov.uk/basicpayetools ac wedi ei ddiweddaru er mwyn cynnwys y newidiadau uchod.

Os ydych yn defnyddio:

- **meddalwedd y gyflogres** – sicrhewch ei fod yn cynnwys y newidiadau o 6 Ebrill 2011 ac os nad ydych yn siŵr, gwiriwch gyda'ch darparwr meddalwedd
- **cyflogres â llaw** – bydd ein Cyfrifiannell Treth TWE ar y Rhyngrwyd yn cael ei ddiweddaru o 6 Ebrill 2011, ewch i **www.hmrc.gov.uk/calculs/paye.htm** neu, os ydych yn dal i ddefnyddio Tablau Treth, defnyddiwch y Tablau Cyfrifiannell (Ebrill 2011) neu'r Tablau Tâl Trethadwy (Ebrill 2011) newydd, a pharhewch i ddefnyddio Tablau Treth A (1993), sydd heb gael eu newid.

Mae'r tablau treth ar gael ar ein gwefan, ewch i hafan y Cyflogwyr yn **www.hmrc.gov.uk/cymraeg/employers/index.htm** Er mwyn ein cynorthwyo i gadw costau i lawr, os oes angen copi papur arnoch, a fyddech cystal ag argraffu un. Os nad oes gennych gysylltiad i'r Rhyngrwyd, ffoniwch **0845 302 1489** i archebu copi.

Cyflwyniad

Ar gyfer 2011-12 y Lwfans Personol sylfaenol fydd £7,475 a'r trothwy cyfradd sylfaenol fydd £35,000. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn dweud wrthych beth sy'n rhaid i chi ei wneud i baratoi a phryd i newid codau ôl-ddodiad L.

Paratoi ar gyfer y flwyddyn dreth newydd sy'n dechrau ar 6 Ebrill

Ar gyfer pob cyflogai a fydd yn gweithio i chi ar 6 Ebrill, bydd angen i chi:

- paratoi ffurflen P11 *Taflen Waith Didyniadau* (neu gofnod cyfatebol)
- dod o hyd i'r cod iawn i'w ddefnyddio yn y flwyddyn dreth newydd, a
- rhoi'r cod treth iawn ym mlwch L o'r P11 (neu gofnod cyfatebol).

Dilynwch yr un camau os ydych yn defnyddio meddalwedd cyflogres.

Pan fyddwn yn anfon cod treth newydd ar gyfer unrhyw un o'ch cyflogeion byddwch yn derbyn naill ai:

- hysbysiad cod dros y Rhyngrwyd os ydych wedi cofrestru i ddefnyddio ein gwasanaeth Rhyngrwyd – TWE Ar-lein (Dewiswch y cysylltiad 'tax code notices' o'ch tudalen gwasanaeth TWE ar-lein i edrych ar eich hysbysiadau ar-lein)
- hysbysiad cod drwy'r Gyfnewidfa Data Electronig, neu
- ffurflen bapur P9(T) *Hysbysiad o god treth y cyflogai i'r cyflogwr.*

Cadwch yr hysbysiad hwn gydag unrhyw godau treth newydd hyd nes eich bod yn barod i sefydlu'ch cyflogres ar gyfer 2011-12. Ni fyddwn yn anfon cod treth newydd ar gyfer pob cyflogai.

Beth i'w wneud os na dderbyniwch god treth newydd gennym

Os na fyddwn wedi anfon codau treth ar gyfer y flwyddyn dreth newydd atoch, a'ch bod yn eu disgwyl, cysylltwch â'ch swyddfa CThEM i gael copïau eraill.

Beth sydd angen i chi ei wneud cyn 6 Ebrill 2011

Cyflogeion heb god treth newydd

Cariwch y cod treth a awdurdodwyd o'r ffurflen P11 2010-11 ymlaen i'r ffurflen P11 2011-12 (neu gofnod cyfatebol), **ond** os ydych wedi derbyn cod treth 2010-11 ar ffurflen P6 a oedd yn rhy hwyr i'w weithredu yn 2010-11, cariwch y cod hwn ymlaen yn lle hynny.

> Adiwch 100 i unrhyw god treth sy'n gorffen ag L, er enghraifft mae 647L yn newid i 747L

Peidiwch â chopïo neu gario ymlaen unrhyw farciau 'wythnos 1'neu 'mis 1'.

Mae'r ffurflenni P11 (neu gofnodion cyfatebol) ar gyfer y cyflogeion hyn nawr yn barod ar gyfer y flwyddyn dreth newydd.

Trowch drosodd

Cyflogeion gyda chod treth newydd

Cadwch, a defnyddiwch, y ffurflen P9(T), neu hysbysiad cod treth arall, sydd â'r dyddiad diweddaraf ar gyfer pob cyflogai:

- taflwch i ffwrdd unrhyw ffurflen P9(T), ar gyfer yr un cyflogai, sydd â dyddiad cynharach
- copïwch y cod treth o'r ffurflen P9(T), neu hysbysiad cod treth arall, i'r ffurflen P11
- diweddarwch unrhyw godau treth pan gewch P9(T), neu hysbysiad cod treth arall, ar ôl i chi baratoi'r ffurflenni P11.

Mae'r ffurflenni P11 (neu gofnodion cyfatebol) ar gyfer y cyflogeion hyn nawr yn barod ar gyfer y flwyddyn dreth newydd.

Cyflogai yn gadael

Nid oes raid i chi newid cod treth cyflogai sy'n gadael cyn 6 Ebrill, hyd yn oed os byddwch yn ei dalu ar ôl 6 Ebrill. Defnyddiwch yr hen god.

Cyflogeion newydd

Os bydd cyflogai'n dechrau rhwng 6 Ebrill a 24 Mai, ac yn rhoi P45 i chi, dilynwch y cyfarwyddiadau sydd ar dudalen 2 y Llyfryn E12(2011) *Cyfraddau a therfynau TWE a CYG ar gyfer 2011-12.*

Gallwch lawrlwytho'r llyfryn hwn o'n gwefan. Ewch i hafan y Cyflogwyr yn **www.hmrc.gov.uk/cymraeg/employers/index.htm**

Cyfrifiannell P11 ar CD-ROM y Cyflogwr

Os ydych yn defnyddio'r Cyfrifiannell P11, sydd ar gael wrth ddefnyddio ein Offer TWE Sylfaenol yn **www.businesslink.gov.uk/basicpayetools** (ar gael yn flaenorol ar CD-ROM y Cyflogwr) bydd angen i chi ddod a 2010-11 i ben ar y Cyfrifiannell P11.

Yn yr "Employer Database" dewiswch yr "Employer Tab" a "Complete Year End 2010-11". Pan yn agor y Cyfrifiannell P11 2011-12 defnyddiwch:

- unrhyw god treth a anfonom (os gwnaethoch dderbyn mwy nag un, defnyddiwch yr un â'r dyddiad diweddaraf), neu
- os na chafodd cod treth newydd ei dderbyn, parhewch i ddefnyddio'r un cod treth a ddefnyddioch yn 2009-10.

Llinell Gymorth

Os bydd gennych unrhyw broblem wrth baratoi'ch cyflogres, ffoniwch y Llinell Gymorth ar **0845 302 1489**.

Defnyddwyr meddalwedd cyflogres

Os ydych yn rhaglennu eich meddalwedd eich hun mae'r manylion technegol ar gyfer 2011-12 i'w cael yn rhifyn Rhagfyr 2010 o'n Nodiadau ar gyfer Datblygwyr Meddalwedd Cyflogres.

Mae'r nodiadau hyn ar gael ar ein gwefan yn **www.hmrc.gov.uk/comp**

Os hoffech hysbysiad ymlaen llaw o pan fydd y Nodiadau ar gael ar ein gwefan, anfonwch eich cais, gan gynnwys eich enw a'ch cyfeiriad, drwy e-bost i **hmrcnotes@replyservice.co.uk**